PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN MORGANNWG

Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional Partnership

# CYLCHLYTHYR

CHWEFROR 2024



YN Y RHIFYN HWN:


YMWELIAD Y DIRPRWY WEINIDOG

LANSIO'R STRATEGAETH GWIRFODDOLI

HENEIDDIO'N DDA YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT

CYNLLUNIWCH GYDA NI!

SESIWN GWIRFODDOLWYR

CAEL YR WYBODAETH DDIWEDDARAF


## CEFNOGI PLANT A PHOBL IFANC

### YMWELIAD Y DIRPRWY WEINIDOG Â'R HWB CYMORTH CYNNAR

Cawsom ddechrau cyffrous i'r mis oherwydd ar 1 Chwefror croesawyd Lynne Neagle, y Dirprwy Weinidog Llesiant ac Iechyd Meddwl i Hwb Cymorth Cynnar 'Valley'.

Ym mis Ebrill 2020, cyflwynodd Abertawe 5 Hwb Cymorth Cynnar mewn gwahanol safleoedd ar draws y ddinas. Ethos yr Hybiau yw sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael mynediad at y cymorth cywir ar yr amser cywir, a chanolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' i deuluoedd.



**Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog â phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol i drafod Fframwaith NYTH/NEST a sut mae'n cael ei weithredu ar draws y rhanbarth.**

### NYTH/NEST AR WAITH

Mae **NYTH/NEST** yn darparu'n ymarferol yr egwyddorion allweddol: Nerth, Ymddiried, Tyfu'n ddiogel, A Hybu.

Roedd rhifyn Tachwedd o'n Cylchlythyr yn rhoi trosolwg o NYTH/NEST, sef ymgyrch genedlaethol gan Lywodraeth Cymru i roi iechyd meddwl a llesiant wrth galon gwasanaethau i fabanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd.

**Parhad ar y dudalen nesaf...**

# YMWELIAD DIRPRWY WEINIDOG



Yn ogystal â thrafod effaith NYTH gyda gweithwyr proffesiynol, siaradodd y Dirprwy Weinidog â phobl ifanc a'u teuluoedd am eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau a'r gefnogaeth werthfawr y maent wedi'i chael yn yr ysgol a'r gymuned.

Roedd yr ymweliad, a oedd yn cyd-daro ag Wythnos Iechyd Meddwl Plant 2024, yn gyfle gwych i dynnu sylw at y gwasanaeth gwych a ddarperir gan fodel y Ganolfan Cymorth Cynnar, y'i gwnaed yn bosib diolch i fuddsoddiad gan Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (CIRh) Llywodraeth Cymru.

## YMAGWEDD GYDLYNOL AT GEFNOGAETH

Mae'r Canolfannau Cymorth Cynnar yn gweithredu ymagwedd gydlynol, gan gefnogi unigolion a theuluoedd drwy ddefnyddio strwythur canolfan mewn ardal leol a phwynt cyswllt unigol ar gyfer gweithwyr proffesiynol Drwy gyd-leoli'r gwasanaethau hyn a dod â hwy at ei gilydd o fewn un strwythur, trefnir bod cefnogaeth ar gael ar sail gydweithredol gyda phartneriaid, gan ddefnyddio asedau cymunedol i gyflwyno gwaith plant/blynyddoedd cynnar, gwaith ieuenctid a gwaith gyda'r teulu cyfan.

Elfen allweddol o'r model yw cyflwyno Gweithwyr Iechyd a Lles Emosiynol sy'n darparu adnodd unigol, integredig ar gyfer cefnogaeth deuluol o fewn ysgolion uwchradd Abertawe. Mae'r cynnig yn ymgorffori'r Gwasanaeth Ieuenctid fel darpariaeth 'un haen' gydag ymyriadau mwy penodol gan y Gweithwyr Iechyd a Lles Emosiynol arweiniol . Mae gwella mynediad at gefnogaeth emosiynol a lles yn cael ei sbarduno gan ffrwd waith iechyd Meddwl a Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg sy'n adrodd wrth Fwrdd y Rhaglen Plant a Phobl Ifanc.

**"Roedd siarad â'r staff a'r bobl ifanc yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar effaith y gwasanaeth hwn, sy'n amlwg yn cyflawni egwyddorion NYTH/NEST o flaenoriaethu iechyd meddwl a lles emosiynol."**

*-Lynne Neagle, Dirprwy Weinidog Llesiant ac Iechyd Meddwl*

# LANSIO'R STRATEGAETH GWIRFODDOLI

Wyddech chi fod 5 Rhagfyr yn Ddiwrnod Rhyngwladol Gwirfoddolwyr?

Yng Ngorllewin Morgannwg roeddem yn falch iawn o allu nodi'r achlysur drwy lansio ein **Strategaeth Gwirfoddoli** ranbarthol newydd (cliciwch yma i'w gweld).

CYMORTH GWIRFODDOLI GORLLEWIN MORGANNWG
WEST GLAMORGAN VOLUNTEERING SUPPORT

Datblygwyd y Strategaeth fel rhan o brosiect **Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg** (CGGM) ac mae dogfen **Egwyddorion y Strategaeth Gwirfoddoli** yn cyd-fynd â hi sy'n nodi sut mae'r rhanbarth yn bwriadu cydweithio i gyfoethogi'r profiad gwirfoddoli i bawb (cliciwch yma i'w gweld).

Sefydlwyd prosiect CGGM diolch i fuddsoddiad gan 'Grant Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws' Llywodraeth Cymru. Ynghyd â'r Strategaeth Gwirfoddoli, un o'r pethau allweddol a gyflwynwyd fu cynhyrchu cyfres o adnoddau, gan gynnwys pecynnau cymorth a thaflenni gwybodaeth y bwriedir iddynt gynorthwyo gwirfoddolwyr a sefydliadau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr.

I gael gwybod mwy am CGGM ac i gyrchu'r adnoddau, ewch i **www.westglamorgan.org.uk/cy/cggm**

# HENEIDDIO'N DDA YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT

Mae rhan fawr o'n gwaith yn ymwneud â chysylltu â'n cymunedau a meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chynhyrchiol â'n sefydliadau partner.

Mewn rhifynnau blaenorol o'n cylchlythyr, rydym wedi sôn am y gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan fenter 'Heneiddio'n Dda' Abertawe a sut rydym wedi gallu ymuno ar nifer o weithgareddau ymgysylltu rhyngweithiol.



Yn y rhifyn hawn, rydym yn hapus iawn i fod yn tynnu sylw at 'Heneiddio'n Dda' Castell-nedd Port Talbot, sy'n cael cryn sylw yn yr ardal diolch i'r Swyddog Heneiddio'n Dda, Dan Garnell (yn y llun) a'i gydweithwyr yng  Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Derbyniodd Dan y rôl ym mis Mai 2023 a'r prif ffocws o0edd casglu meddyliau a phrofiadau ystod eang o bobl hŷn lleol i benderfynu ar y pethau sy'n wirioneddol bwysig iddynt.

## DYHEAD 'CYMUNED OED-GYFEILLGAR'

Un o nodau Heneiddio'n Dda Castell-nedd Port Talbot yw cyflawni cydnabyddiaeth swyddogol fel 'Cymuned Oed-gyfeillgar' gan Sefydliad Iechyd y Byd.

> ***"Mae Castell-nedd Port Talbot eisoes yn hysbys fel amgylchedd croesawgar a chefnogol i bawb sy'n byw yno. Ein cynllun yw defnyddio'r ysbryd cymunedol ffyniannus - mae gennym gynlluniau mawr ar gyfer 2024, ac rydym yn awyddus i gysylltu â thîm Gorllewin Morgannwg a phartneriaid eraill i ddatblygu'r agenda Heneiddio'n Dda ar draws ein rhanbarth".*** - Dan Garnell

Mae camau enfawr wedi'i gwneud eisoes o ran y cylch gwaith 'Heneiddio'n Dda', yn enwedig ym maes Dementia gan fod y tîm wedi bod yn gyfrwng helpu i sefydlu'r Hwb Dementia newydd yng Nghanolfan Siopa Aberafan. Mae gwaith arfaethedig arall yn cynnwys datblygu Strategaeth Unigrwydd ac Ynysigrwydd - pwnc hanfodol, yn enwedig yn yr hinsawdd ôl-bandemig.

Edrychwn ymlaen at weithio ar y cyd â'n holl gysylltiadau 'Heneiddio'n Dda' fel rhan o'n rhaglen 'Cymunedau a Phobl Hŷn' ranbarthol newydd.

d.garnell@npt.gov.uk
07866916340

## CYNLLUNIWCH GYDA NI!




Lansiwyd y **Strategaeth Lles Emosiynol a Meddyliol** ranbarthol (cliciwch yma i'w gweld) y llynedd, a nawr mae'n bryd '**Rhoi Gweledigaeth ar Waith**' wrth i ni ddechrau cynllunio'r gwaith o roi'r Strategaeth ar waith.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, gallwch ymuno ag aelodau o dîm Gorllewin Morgannwg ddydd Gwener **8 Mawrth** yn **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau** Abertawe (**10am - 12.30pm**).

Does dim angen cadw lle, dewch draw i'n helpu i nodi ein blaenoriaethau ar gyfer trawsnewid cefnogaeth ar gyfer lles emosiynol ac iechyd meddwl ar draws ein rhanbarth.

# SESIWN GWIRFODDOLWYR

Ar Ddydd Gwener 12 Ionawr, daeth ein tîm at ei gilydd yn stadiwm Swansea.com am gyfarfod anffurfiol gyda chynrychiolwyr gwirfoddolwyr penigamp Gorllewin Morgannwg.

Derbyniom ambell recriwt newydd tua diwedd 2023, felly rhoddodd y sesiwn gyfle i bawb ddod i adnabod ei gilydd a chael gwybod am y rhaglenni gwaith rhanbarthol a'r hyn sydd ar y gweill ar gyfer 2024.

Dywedodd **Lydia Harley**, **Cydlynydd Cynrychiolwyr Gwirfoddolwyr Gorllewin Morgannwg**:



***"Mae Gorllewin Morgannwg yn fan lle rydym yn cyfuno ein hadnoddau, ein syniadau a'n hymdrechion i wella bywydau'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau. Mae gwirfoddolwyr yn darparu safbwyntiau ehangach a gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen i helpu ein cymunedau i ffynnu. Rydym i gyd yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir ac rydym yma i gefnogi ein gilydd. Mae gan bob gwirfoddolwr fewnwelediad unigryw ac mae'n chwarae rhan annatod yn yr ymdrech gydweithredol hon. Eu hymroddiad hwy yw'r hyn sy'n gyrru'r newid cadarnhaol rydyn ni'n dyheu i'w gyflawni".***

Roedd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniadau a oedd yn darparu trosolwg o waith y bartneriaeth. Roedd gwirfoddolwyr hefyd yn gallu sgwrsio â staff a rhannu adborth ac awgrymiadau drwy'r 'Wal Siarad' ryngweithiol.

Yn rhifyn nesaf ein cylchlythyr, cadwch lygad am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ymdrechion gwych ein Cynrychiolwyr Gwirfoddolwyr ac i glywed popeth am ein cynlluniau ar gyfer Wythnos Gwirfoddoli (1-7 Mehefin).

# CAEL YR WYBODAETH DDIWEDDARAF




Roeddem yn llawn cyffro i ddechrau 2024 gyda lansiad ein **Dyddiadur Gweithio ar y Cyd** newydd sbon!
Daw ein menter newydd ar ffurf diweddariad byr ar ffurf blog sy'n ymddangos ar ein gwefan yn fuan ar ôl pob cyfarfod **Bwrdd Llywio a Chynghori Gorllewin Morgannwg (BLlaCh).**

Bydd cofnodion newydd ar gyfer y dyddiadur yn cael eu postio bob rhyw dair wythnos, yn unol â chylchoedd cyfarfod BLlaCh.

Mae ein tri chofnod cyntaf eisoes yn fyw ar ein gwefan (cliciwch ar y ddolen isod). Byddwn yn dal i gynhyrchu'r cylchlythyr chwarterol hwn ac yn parhau i dyfu ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (**@WGlamPship** ar X a **Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg** ar Facebook - beth am ein dilyn?). Mae'r Dyddiadur Gweithio ar y Cyd yn ffordd arall o dynnu sylw at ein cyflawniadau a hefyd rannu straeon digidol sy'n dangos y gwahaniaeth y mae gweithio rhanbarthol yn ei wneud i unigolion a chymunedau.

**www.westglamorgan.org.uk/cy/dyddiadur**

Am ragor o wybodaeth am Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, e-bostiwch west.glamorgan@abertawe.gov.uk neu ffoniwch 01792 633 805.
Mae'r cylchlythyr hwn ar gael mewn fformatau gwahanol - cysylltwch â ni gyda manylion eich gofynion.